Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Heddlu Police
DYFED-POWYS

**Mr. Mark Collins**
**Prif Gwnstabl / Chief Constable**

Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys, Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF.
Dyfed-Powys Police Headquarters, PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF.

• Ffôn/Tel : 01267 226325
• Ffacs/Fax : 01267 222185
• E-bost/E-mail :

Eich cyf/Your ref :

Ein cyf/Our ref :
Gofynnwch am/Please ask for :

I Dafydd Llywelyn,

Comisiynydd Heddlu a Throseddu,

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i adroddiad thematig diweddar Arolygaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi i Blismona ac Iechyd Meddwl – 'Codi'r Darnau'. Fel arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar Iechyd Meddwl a Phlismona rwyf yn croesawu'r adroddiad hwn sy'n cefnogi'r gwaith arwyddocaol sy'n cael ei gyflawni i wella ein hymateb partneriaeth yn y maes pwysig hwn. Mae'r adroddiad yn nodi nifer o argymhellion cenedlaethol ar gyfer pob heddlu.

Mewn ymateb i'r argymhellion hyn gallaf eich cynghori fel a ganlyn:

**Argymhelliad :**
**Dylai pob heddlu gynnal ymarfer 'ciplun' i asesu eu galw yn ymwneud ag iechyd meddwl**

Mae'n dda gennyf adrodd fod ymagwedd Cymru Gyfan i ddeall galw'n ymwneud ag iechyd meddwl wedi ei gymryd, gyda dau giplun galw iechyd meddwl 24 awr eisoes wedi eu cynnal. Cyflawnwyd y diweddaraf o'r rhain ar y 9-10fed Ebrill 2018. Adroddwyd canfyddiadau'r cipluniau hyn i Grŵp Sicrwydd Concordat Argyfwng Cymru Gyfan ac maent wedi dylanwadu ar gynlluniau gweithredu lleol a rhanbarthol.

Mae pob un o Heddluoedd Cymru wedi gweld cynnydd cyson o ran y niferoedd o alwadau'n ymwneud ag iechyd meddwl blwyddyn ar ôl blwyddyn a, tra bod rhai o'r cynyddiadau hyn wedi eu priodoli i welliant o ran adnabod a chofnodi breguster; mae'r niferoedd serch hynny wedi cynyddu'n sylweddol. Yn y cyfnod dwy flynedd rhwng 2014/2017, cynyddodd niferoedd y digwyddiadau iechyd meddwl a gofnodwyd gan Heddlu Dyfed-Powys o 3,300 to 5,700.

Prif Gwnstabl • **Mr. Mark Collins** • Chief Constable

Y Wobr Brydeinig am Wasanaeth o Safon

The National Award For Quality of Service

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn croesawu Gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Dyfed-Powys Police welcomes Correspondance in either Welsh or English.

Buddsoddwyr Mewn Pobl

Investors in People

Wales/Cymru CRIMESTOPPERS 0800 555 111
Call anonymously with information about crime
Ffoniwch yn ddienw os am roi gwybodaeth am drosedd

Mae cofnodi'r darlun mwyaf cywir o alw iechyd meddwl ar wasanaeth yr heddlu'n heriol o ystyried cyfyngiadau data presennol. Mae data'r Swyddfa Gartref (a gymerwyd o gyflwyniadau Datganiadau Rheoli Heddlu i Arolygaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) yn dangos fod oddeutu 3% o ddigwyddiadau ar hyn o bryd yn cael eu nodi'n benodol fel rhai'n ymwneud ag iechyd meddwl.

Ystyrir hyn gan yr arolygaeth yn amcangyfrif llawer iawn rhy isel gan nad yw nifer o heddluoedd yn 'fflagio' galwadau iechyd meddwl yn gyson, neu o gwbl.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gweithredu Cymhwysydd Iechyd Meddwl i alwadau am wasanaeth sy'n ymwneud ag unigolyn y mae ganddynt, neu y maent yn ymddangos i fod yn dioddef o, anhwylder meddwl neu nam meddyliol. Y mae hyn yn galluogi'r heddlu i gymhwyso iechyd meddwl ar y pwynt cyswllt cyntaf gyda'r heddlu.

Ers 2014 bu cynnydd cyson o ran galwadau'n ymwneud ag iechyd meddwl a dderbyniwyd o fewn ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Gwelwyd penllanw'r cynnydd hwn yn 2016/17 gyda Heddlu Dyfed-Powys yn derbyn 5700 galwad iechyd meddwl, 73% yn fwy nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae dadansoddiad o ddata 2017 yn dangos;

- Fod gan 3% o gyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd gymhwysydd iechyd meddwl
- Fod 76% o'r digwyddiadau hyn yn ymwneud â materion diogelwch a lles y cyhoedd
- Ymhlith y deg prif alwr ynghylch digwyddiadau o'r natur hwn y mae sefydliadau Bwrdd Iechyd Lleol (gan gynnwys y rhai hynny gyda chyfleusterau Iechyd Meddwl)
- Fod 11% o ddigwyddiadau lle gweithredwyd cymhwysydd iechyd meddwl yn adroddiadau o bobl ar goll/yn absennol
- Sy'n cyfateb i 16% o gyfanswm (2,805) y niferoedd o adroddiadau o bobl ar goll/yn absennol a gofnodwyd gan yr heddlu yn ystod yr un cyfnod.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn bwriadu cynnal cipluniau iechyd meddwl pellach yn 2019 fel y gallwn werthuso'r newidiadau o ran prosesau a weithredwyd yn dilyn y cipluniau blaenorol a hysbysu ein dealltwriaeth o alw yn y dyfodol.

Yn ddiweddar cefais drafodaethau gyda'r Swyddfa Gartref lle nodwyd yn dilyn y diwrnod 'ciplun' Cymru Gyfan, fod y Gweinidog Plismona nawr wedi gofyn ein bod yn cyflawni 'ciplun' Cenedlaethol er mwyn cael gwell darlun o'r galw iechyd meddwl a wneir ar

heddluoedd ar draws y DU. Byddaf yn fwy na balch cael rhannu'r canlyniadau yn dilyn cadarnhau dyddiadau a ddewisir gan y Swyddfa Gartref.

**Argymhelliad:**
**Dylai pob heddlu werthuso eu gwasanaethau brysbennu iechyd meddwl**

Mae Dyfed Powys ar hyn o bryd yn rhedeg tîm Brysbennu Iechyd Meddwl o ystafell reoli'r heddlu. Mae'r tîm wedi ei ffurfio o staff yr Heddlu a Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Treialwyd y gwasanaeth yn gychwynnol dros 4 diwrnod yr wythnos ond cynyddwyd hwn i wasanaeth 7 diwrnod ym mis Mai 2018.

Mae'r grŵp trosglwyddo Concordat Gofal Mewn Argyfwng lleol a gyd-gadeirir gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Evans a Richard Jones, Pennaeth Arloesedd a Strategaeth Glinigol Hywel Dda, wedi comisiynu adolygiad o'r tîm brysbennu. Cychwynnwyd y casglu data cychwynnol a bydd yr adolygiad yn rhoi adroddiad ym mis Mai 2019 a fydd yn darparu gwerthusiad o drosglwyddo gwasanaeth 12 mis 7 diwrnod yr wythnos.

**Argymhelliad:**
**Dylai pob heddlu adolygu eu rhaglenni hyfforddi iechyd meddwl**

Cyflawnwyd adolygiad o becyn hyfforddi iechyd meddwl Heddlu Dyfed-Powys yn ddiweddar dan arweiniad yr Uwcharolygydd Jon Cummins. Lluniwyd y pecyn diwygiedig gyda chefnogaeth lawn partneriaid iechyd meddwl lleol ac y mae nawr yn becyn hyfforddiant heddlu a phartneriaid integredig. Cychwynnwyd trosglwyddo hwn tua diwedd 2018 ac y mae'n cael ei drosglwyddo i gynulleidfa amlasiantaeth.

Rwyf yn gobeithio bod yr ymateb hwn wedi rhoi sicrwydd i chi fod llawer o waith eisoes wedi ei gyflawni yn y meysydd hyn, a bod rhai meysydd eisoes wedi eu cwblhau. Bydd y gwaith o fonitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn yn cael ei gyflawni ym Mwrdd Iechyd Meddwl Strategol yr Heddlu ac yn y grŵp trosglwyddo Concordat Gofal Mewn Argyfwng Amlasiantaeth.

Fel heddlu, rydym wedi ein hymrwymo i weithio gyda'n partneriaid i sicrhau fod y rhai hynny sy'n dioddef argyfwng iechyd meddwl yn derbyn yr ymateb cywir gan yr asiantaeth fwyaf priodol.

Yn gywir,



Y Prif Gwnstabl Mark Collins